

# Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

## Tasgau Cyfoethog

<p><b>Ardal:</b> Coedwig</p> <p><b>Amcan Dysgu:</b> Defnyddio rhif a mesur i archwilio bywyd coeden</p>	<p><b>Grŵp Blwyddyn y CC:</b> Blynyddoedd 3 a 4</p>
<p><b>Maes Dysgu:</b> <u>Mathemateg/Rhifedd/Rhaglen Astudio Mathemateg</u> <u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u></p> <p>Adnabod prosesau a chysylltiadau</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd</li><li>• Dewis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio</li><li>• Dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell.</li></ul> <p>Cynrychioli a chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol</li><li>• Mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynny</li><li>• Adnabod patrymau sy'n codi mewn sefyllfaoedd rhifyddol, gofodol neu ymarferol, a defnyddio geiriau i'w disgrifio'n gyffredinol.</li></ul> <p>Adolygu</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dewis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol</li><li>• Dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol</li><li>• Defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr.</li></ul> <p><u>Rhif</u></p> <p>Deall rhif a nodiant rhif</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1,000 (B3) 10,000 (B4)</li><li>• cymharu ac amcangyfrif gyda rhifau hyd at 100 (B3) 1,000 (B4).</li></ul> <p><u>Defnyddio Sgiliau Mesur</u></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• dewis a defnyddio unedau mesur safonol i amcangyfrif a mesur hyd, pwysau, màs a chynhwysedd (B4)</li><li>• trosi unedau o hyd metrig yn unedau llai, e.e. cm yn mm, m yn cm (B4).</li></ul> <p><u>Trin data</u></p> <p>Casglu, cyflwyno a dehongli</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• cyflwyno data drwy ddefnyddio:- rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau (B4)</li><li>• siartiau bar a graffiau bar llinell wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10 (B4)</li><li>• defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i ddisgrifio set ddata (B5).</li></ul>	
<p><b>Pennawd/Addas i blant</b></p> <p>Beth yw hanes bywyd y goeden?</p>	

### **Meini Prawf Llwyddiant**

- egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol
- adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad
- dewis a defnyddio offer ac unedau mesur addas
- defnyddio pren mesur i fesur i'r mm agosaf a chofnodi drwy ddefnyddio cymysgedd o unedau, e.e. 1cm 3mm
- defnyddio unedau safonol i amcangyfrif a mesur: – hyd: mesur ar bren mesur i'r ½cm agosaf

### **Beth i'w wneud:**

#### *Ardal goedwig*

Ewch i ymweld ag ardal goedwig gyda choed sydd wedi'u torri'n barod. Neilltuwch foncyff i bob grŵp o blant weithio arno.

Bydd angen i'r plant chwilio am batrymau o fewn y cylchoedd – beth maen nhw wedi sylwi arno? A yw eu lled yr un peth? Pam?

(Os bu blwyddyn arbennig o sych/gwlyb/cynnes, bydd patrymau'r cylchoedd yn newid)

Yna, amcangyfrifwch oedran y goeden a chyfiawnhau'r rhesymau dros y dewisiadau.

Crëwch linell amser ar ffurf pren taith yn dangos oedran y goeden, gan ddefnyddio llinyn sy'n cynrychioli patrwm y cylchoedd.

Gwnewch rwbriad o'r patrwm i'w ddefnyddio'n ddiweddarach (gweler yr adran ymestyn yn yr ystafell ddosbarth)

Defnyddiwch iPad i gofnodi delweddau ac ap Skitch i ychwanegu'ch mesuriadau at y patrymau lled.

A ydyn nhw'n gallu adnabod y goeden o'r dail/rhisgl sydd ar ôl? A oedd y goeden yn y lle gorau? Pam cafodd y goeden ei thorri i lawr? A gafodd y goeden ddigon o olau? A yw'r goeden wedi gadael llwybr ar ei hôl ar ôl disgyn?

#### *Ymestyn yn yr ystafell ddosbarth*

Dylai'r plant ddefnyddio'u pren taith eu hunain i ymchwilio i batrymau'r tywydd a data dros y cyfnod amser sydd wedi'i amcangyfrif. A allan nhw labelu eu pren taith i greu llinell amser?

Ymchwiliwch i flynyddoedd penodol pan mae'r patrymau yn ffurf y cylchoedd yn wahanol a chofnodwch ddigwyddiadau a ddigwyddodd – a ydyn nhw'n gallu cysylltu'r rhain â digwyddiadau/profiadau personol? Sut mae'r amgylchedd wedi newid ers i'r goeden gael ei phlannu? Beth mae'r goeden wedi'i weld yn ystod ei bywyd?

Gwnewch dabl o'r data a gasglwyd gan y grŵp a'i gymharu â grŵp arall – a ydyn nhw'n gallu cymharu fel dosbarth? Cyfrifwch y cymedr/cyfartaledd a thrafod y rhesymau posibl dros anomaleddau.

Gofynnwch gwestiynau: A fyddai pob coeden â'r un patrwm â choed mewn ardaloedd eraill o Brydain? (A fyddai'r tywydd wedi cael effaith?)

Modelwch sgiliau sydd wedi'u dysgu i ddosbarth Cyfnod Sylfaen a dangoswch sut i amcangyfrif oedran coeden trwy edrych ar batrymau'r cylchoedd (defnyddiwch rwbriadau).

Crëwch gyflwyniad/poster bach i'w rannu gyda ffrindiau a theulu.

### **Adnoddau ar gyfer yr awyr agored:**

Ardal gyda choed wedi'u torri'n barod, creonau, darnau o bren, llinyn, siswrn, tâp mesur, iPad (gyda Skitch), siacedi llachar

**Adnoddau yn y dosbarth:**

Pren taith a gwybodaeth a gasglwyd o'r ymweliad

Cerdyn a deunyddiau crefft ar gyfer labelu

Cysylltiad â'r rhyngrwyd (safleoedd sy'n adrodd y tywydd)

Cyfrifiaduron ar gyfer y cyflwyniad

**Cysylltiadau cwricwlaidd:**

Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, Daearyddiaeth, Addysg grefyddol, Gwyddoniaeth, Addysg gorfforol, Llythrennedd

